# Rhan 3 — Y broses ddethol ar gyfer ynadon

**Mae'r cyfarwyddiadau hyn ar gyfer rhanbarthau sy'n ymgymryd â'r Rhaglen Llwybr ar gyfer ynadon (Uplift Pathway Programme - UPP) - y Gogledd Orllewin, y De Ddwyrain a De Orllewin Lloegr. Dylai pob rhanbarth arall ddefnyddio Cyfarwyddiadau safonol yr Arglwydd Ganghellor.**

## Cynnwys


Egwyddorion arweiniol .... 3
Y Prif Nodweddion .... 3
Ymgyrchoedd recriwtio.... 4
Swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol .... 4
Ymgeisio i fod yn ynad .... 4
Gofynion cyn ymgeisio .... 5
**Ceisiadau i'r Llys Troseddol** .... 5
**Ceisiadau i'r Llys Teulu**.... 5
Derbyn a delio â cheisiadau .... 5
**Derbyn a chydnabod** .... 5
**Cadw cofnodion** .... 5
Cam 1: Gofynion cymhwysedd.... 6
**Edrych am ffactorau sy'n arwain at waharddiad awtomatig**.... 6
**Ymgeiswyr blaenorol** .... 6
**Gwneud cais i fwy nag un Pwyllgor Ymgynghorol/awdurdodaeth ar yr un pryd**.... 6
Cam 2: Asesiad cymhwyso .... 6
**Rhagsgrinio cais** .... 7
Cam 3: Geirdaon.... 7
Cam 4: Cyfweliad.... 8
**Cynnwys cyfweliadau** .... 8
**Asesu cyfweliad** .... 9
**Trefniadau ymarferol**.... 9
**Ad-dalu treuliau i ymgeiswyr**....10
**Rôl Ysgrifenyddion o ran cyfweliadau** ....10
**Paneli cyfweld**....10
**Arsylwi cyfweliadau** ....12
**Ymgeiswyr sydd ag anableddau** ....12

**Dull adnabod** ... 12
Cyfweliadau: gweithdrefnau ar ôl asesu ... 13
**Argymhelliad y Pwyllgor Ymgynghorol ar gyfer penodi** ... 13
**Gwybodaeth bersonol am ymgeiswyr** ... 13
**Y weithdrefn pan fydd mwy o ymgeiswyr addas na swyddi gwag** ... 13
**Hysbysu ymgeiswyr am ganlyniad eu cais** ... 14
Proses glirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ... 14
Adolygiad gan ymgeiswyr aflwyddiannus ... 14
**Adolygu penderfyniad Pwyllgor Ymgynghorol (neu gworwm penderfyniad Pwyllgor Ymgynghorol)** ... 15
**Cais am adolygiad gan yr Uwch Farnwr Llywyddol / Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol** ... 16

**Mae Rhan 3 y Cyfarwyddiadau yn berthnasol i Bwyllgorau Ymgynghorol ar Recriwtio yn unig**

# Rhan 3 — Y broses ddethol ar gyfer ynadon

## Egwyddorion arweiniol

3.1. Mae'r egwyddorion canlynol yn berthnasol wrth ymdrin â phob cais i'r ynadaeth:

- rhaid trin ceisiadau'n deg, yn gyson ac yn gyflym;
- rhaid asesu ymgeiswyr ar sail teilyngdod yn erbyn y pum nodwedd allweddol a'r gofynion yn y disgrifiad o'r rôl[1]. Ni ellir ystyried unrhyw ffactorau eraill;
- rhaid trin ymgeiswyr gyda chwrteisi a pharch;
- ni ddylai ymgeiswyr fod o dan anfantais ar sail unrhyw nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010[2];
- mae gwybodaeth am unigolyn a geir drwy'r broses ddethol yn gyfrinachol.

## Y Prif Nodweddion

3.2. Rhaid i ynadon ddangos pob un o'r pum nodwedd allweddol a nodir isod:

- **Deall a gwerthfawrogi gwahanol safbwyntiau**
  Cydnabod a gwerthfawrogi safbwyntiau pobl eraill. Delio â phobl eraill yn dosturiol a dangos dealltwriaeth ac empathi gwirioneddol tuag at eu sefyllfa. Ymwybyddiaeth o agweddau allweddol ar faterion cymdeithasol a pharodrwydd i'w deall.
- **Cyfathrebu gyda sensitifrwydd a pharch**
  Gwrando'n weithredol ac yn astud, egluro barn a chyfathrebu'n hyderus ac yn sensitif, o fewn ffiniau cyfrinachol. Addasu arddull i gyd-fynd â'r sefyllfa a mynegi'n glir y rhesymeg dros y penderfyniadau a wneir.
- **Gweithio ac ymgysylltu â phobl yn broffesiynol**
  Meithrin ymddiriedaeth a hyder, bod yn agos-atoch ac yn ddibynadwy. Gweithio mewn modd proffesiynol ac effeithlon gydag eraill ac yn annibynnol. Annog pobl eraill i gymryd rhan a'u cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Herio rhagfarn yn briodol ynddoch chi eich hun a phobl eraill.
- **Gwneud penderfyniadau teg, diduedd a thryloyw**

[1] Gellir gweld y disgrifiad o'r rôl ar-lein yn http://magistrates.judiciary.uk
[2] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents

Meddu ar agwedd bendant, gallu ffurfio barn resymegol sy'n ddiduedd ac yn dryloyw drwy ddilyn dull strwythuredig wrth drafod. Gallu cymhathu llawer iawn o wybodaeth a nodi materion perthnasol.

- **Dangos hunanymwybyddiaeth a bod yn agored i ddysgu**
  Meddwl agored a gallu myfyrio a dysgu o safbwyntiau pobl eraill. Addasu'n gyflym i newidiadau a manteisio ar gyfleoedd i ddysgu. Cynnal cymhwysedd a defnyddio strategaethau effeithiol i gynnal llesiant personol.

3.3. Bydd gofyn i ymgeiswyr hefyd ddangos eu bod o gymeriad da, a gofynnir iddynt ddatgan eu bod yn gallu bodloni'r gofynion eistedd sylfaenol, ac nad oes unrhyw beth yn eu bywyd cyhoeddus na phreifat a allai ddwyn anfri ar yr ynadaeth.

## Ymgyrchoedd recriwtio

3.4. Bydd cynllunio recriwtio barnwrol yn seiliedig ar fodel adnoddau cenedlaethol dros nifer o flynyddoedd. Bydd y model hwn yn rhagweld anghenion recriwtio ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, yn seiliedig ar ddata llwyth gwaith a chapasiti barnwrol.

3.5. Bydd anghenion recriwtio wedi'u modelu yn cael eu rhannu â Phwyllgorau Ymgynghorol a gofynnir iddynt gadarnhau eu gallu i gefnogi'r lefelau recriwtio arfaethedig. Lle na chyrhaeddir targedau recriwtio, rhoddir adborth i'r Grŵp Ategol Barnwrol i ystyried addasiadau i gynlluniau yn y dyfodol.

3.6. Ar ôl cytuno ar gynlluniau recriwtio, byddant yn cael eu rhannu ag Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol i gefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu adnoddau. Dylai Pwyllgorau Ymgynghorol gysylltu ag adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chapasiti gweithredol, gan gynnwys cyfweld, hyfforddi a mentora.

3.7. Rhaid i'r holl ddeunyddiau hysbysebu a gwybodaeth am ymgeiswyr nodi'n glir:

- Dyddiad dechrau'r ymgyrch;
- Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau; a hefyd
- Amserlen ddangosol ar gyfer cyfweliadau.

## Swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol

3.8. Dylai Pwyllgorau Ymgynghorol yng Nghymru sy'n recriwtio ar gyfer swyddi gwag y bernir bod y 'Gymraeg yn hanfodol' ddilyn y canllawiau yn **Atodiad 3A**.

## Ymgeisio i fod yn ynad

3.9. Dylid gwneud ceisiadau ar-lein yn https://magistrates.judiciary.uk/. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd copïau caled o'r ffurflenni cais hyn ar gael.

3.10. Bydd copïau o ffurflenni cais mewn fformatau ychwanegol ar gael ar gais. Dylid

rhoi gwybod i ymgeiswyr y gallai hyn arafu'r broses ymgeisio.

3.11. Ni chaiff Pwyllgorau Ymgynghorol ddefnyddio na derbyn fersiynau eraill o ffurflenni cais. Bydd copïau caled o ffurflenni cais yn cael eu bwydo i'r system recriwtio gan Ysgrifenyddion Pwyllgorau Ymgynghorol.

3.12. Mae gwybodaeth am fod yn ynad, y broses ymgeisio a manylion llysoedd lleol ar gael yn https://magistrates.judiciary.uk/. Ni chaiff Pwyllgorau Ymgynghorol gynhyrchu canllawiau amgen ar gyfer ymgeiswyr nac anfon unrhyw wybodaeth sy'n gwrthdaro â'r Cyfarwyddiadau hyn.

## Gofynion cyn ymgeisio

### Ceisiadau i'r Llys Troseddol

3.13. Dylai ymgeiswyr i'r llys troseddol wneud o leiaf ddau ymweliad arsylwi â llys ynadon pan fydd yn eistedd mewn sesiynau cyffredinol, yn ystod y 12 mis blaenorol cyn iddynt gyflwyno eu ffurflen gais. Yn ystod yr arsylwadau hyn, dylai ymgeiswyr arsylwi ynadon yn unig, ac nid Barnwyr Rhanbarth.

3.14. Ni chaiff Pwyllgorau Ymgynghorol ystyried ceisiadau i'r llys troseddol os yw'r canlynol yn berthnasol i ymgeiswyr:

- methu ag ymgymryd ag o leiaf ddau ymweliad o fewn y 12 mis cyn cyflwyno'r cais.

### Ceisiadau i'r Llys Teulu

3.15. Ni chaniateir i ymgeiswyr i'r llys teulu arsylwi achosion mewn llys teulu ond mae'n ofynnol eu bod wedi ymchwilio i'r deunydd y cyfeirir ato yn y canllawiau i ymgeiswyr sydd ar gael yma: Ynadon llys teulu - Recriwtio Ynadon. Dylai'r ymchwil hwn gynnwys gwylio'r fideos a darllen y deunyddiau a ddarperir.

3.16. Gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno eu myfyrdodau personol ar yr ymchwil yn y ffurflen gais. Bydd hyn yn cael ei roi i'r panel cyfweld cyn y cyfweliad, a gall Pwyllgorau Ymgynghorol ofyn i'r ymgeisydd ymhelaethu ar ei fyfyrdodau, gan ddefnyddio cwestiynau treiddgar a ddarperir yn sgript y cyfweliad yn unig.

3.17. Ni chaiff Pwyllgorau Ymgynghorol ystyried ceisiadau i'r llys teulu os nad yw ymgeiswyr wedi ymchwilio i'r deunydd digidol y cyfeirir ato yn y canllawiau i ymgeiswyr.

## Derbyn a delio â cheisiadau

### Derbyn a chydnabod

3.18. Rhaid cyflwyno pob cais ar-lein drwy'r system ddigidol. Bydd cydnabyddiaeth yn cael ei hanfon drwy e-bost ar ôl cyflwyno'r cais yn llwyddiannus. Dylai ymgeiswyr edrych yn eu blwch derbyn sothach/sbam cyn cysylltu â Phwyllgorau Ymgynghorol i gael cadarnhad bod eu cais wedi dod i law.

### Cadw cofnodion

3.19. Bydd y system ddigidol yn cadw holl fanylion cais ymgeiswyr am ddwy flynedd ar

ôl dyddiad y penderfyniad i benodi neu beidio â phenodi, gan gynnwys unrhyw resymau dros beidio â bwrw ymlaen â chais. Bydd manylion y cais yn cael eu dileu ar ôl y dyddiad hwn.

3.20. Bydd adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn cadw manylion personol ar gyfer ynadon a benodir tra byddant yn dal yn weithredol ac yn cael eu dinistrio chwe blynedd ar ôl iddynt ymddiswyddo neu ymddeol.

## Cam 1: Gofynion cymhwysedd

### Edrych am ffactorau sy'n arwain at waharddiad awtomatig

3.21. Bydd ceisiadau am waharddiad o dan Ran 2 o'r Cyfarwyddiadau hyn yn cael eu gwirio gan system awtomatig. O fewn deg diwrnod gwaith i'r cais ddod i law, rhaid i Bwyllgorau Ymgynghorol adolygu unrhyw waharddiadau a nodwyd, cadarnhau'r rheswm dros anghymwyso, a sicrhau bod hyn yn cael ei gofnodi'n briodol. Rhaid hysbysu ymgeiswyr sy'n cael eu gwahardd yn awtomatig rhag cael eu penodi o hyn.

3.22. Rhaid i fanylion ymgeiswyr a wrthodir ar sail gwaharddiad awtomatig aros yn gyfrinachol.

### Ymgeiswyr blaenorol

3.23. Ni chaiff Pwyllgorau Ymgynghorol ystyried ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf (yn dechrau ar ddyddiad cyfweliad yr ymgeiswyr) ac sydd wedi methu â dangos y nodweddion allweddol yn y cyfweliad, oni bai fod rhesymau eithriadol dros wneud hynny.

### Gwneud cais i fwy nag un Pwyllgor Ymgynghorol/awdurdodaeth ar yr un pryd

3.24. Dim ond i un ardal Pwyllgor Ymgynghorol y caiff ymgeiswyr wneud cais, ac i'r llys teulu neu'r llys troseddol ar unrhyw un adeg. Mae hyn oherwydd gofynion hyfforddi gwahanol ar gyfer pob math o lys a'r ymrwymiad sydd ei angen o ganlyniad gan ynadon sydd newydd eu penodi o ran mynd i gael hyfforddiant ac ymgyfarwyddo â rôl yr ynad, ar ben bodloni'r nifer gofynnol o gofynion eisteddiadau.

3.25. Dylai ysgrifenyddion ymatal rhag gwneud rhagor o wiriadau cymhwysedd ar hyn o bryd, ac eithrio o dan yr amgylchiadau a amlinellir yn 3.21-3.26.

## Cam 2: Asesiad cymhwyso

3.26. Rhaid gwahodd pob ymgeisydd, ac eithrio'r rheini sydd wedi'u gwahardd yn awtomatig, i gwblhau asesiad cymhwyso ar-lein.

3.27. Mae'r asesiad cymhwyso yn pennu a yw ymgeiswyr yn dangos yn ddigonol y pum nodwedd allweddol i gael eu gwahodd i gyfweliad.

3.28. Bydd yr asesiad cymhwyso yn cynnwys 20 cwestiwn, gyda phob cwestiwn yn mesur un briodoledd ac yn cael yr un pwysiad wrth farcio'r asesiad. Bydd y pum nodwedd yn cael eu hasesu'n gyfartal ar draws yr asesiad.

3.29. Nid yw'r asesiad wedi'i amseru ond rhaid ei gwblhau o fewn **deg diwrnod calendr.**

3.30. Bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd y marc pasio ar gyfer yr asesiad yn symud ymlaen i'r cam nesaf.

3.31. Rhaid rhoi gwybod i ymgeiswyr nad ydynt yn cael eu gwahodd i'r cam nesaf am hyn yn ysgrifenedig, rhoi gwybod iddynt nad oes adborth ar gael o'r asesiad cymhwyso, a rhoi gwybod iddynt fod croeso iddynt ailymgeisio pan fydd gan y pwyllgor swyddi gwag yn y dyfodol.

3.32. Er mwyn sicrhau parhad y broses ymgeisio a thegwch rhwng ymgeiswyr, rhaid i ymgeiswyr sy'n aflwyddiannus yn yr asesiad cymhwyso aros o leiaf chwe mis, ar ôl cael gwybod eu canlyniad, cyn gwneud cais arall.

**Rhagsgrinio cais**

3.33. Dylai'r Ysgrifennydd nodi unrhyw ymgeiswyr a *allai* gael eu gwahardd rhag cael eu penodi dan Ran 2 y Cyfarwyddiadau hyn, a'r rhesymau dros y gwaharddiad, a chysylltu â'r ymgeisydd i gael rhagor o wybodaeth lle bo angen.

3.34. Yr Ysgrifennydd / Dirprwy Ysgrifennydd a/neu swyddog enwebedig o GLITEF fydd yn penderfynu a ddylid caniatáu i ymgeiswyr unigol fynd ymlaen i gyfweliad.

3.35. Bydd yr Ysgrifennydd / Dirprwy Ysgrifennydd a/neu swyddog(ion) GLITEF dirprwyedig yn adolygu holl wybodaeth yr ymgeisydd, gan gynnwys manylion unrhyw wybodaeth bellach a gafwyd gan yr ymgeisydd. Dylai'r wybodaeth hon fod yn ffeithiol yn unig a gall gynnwys negeseuon e-bost neu ddyfyniadau gair am air o drafodaethau rhwng ymgeiswyr ac Ysgrifenyddion.

3.36. Dylid gwneud y penderfyniadau hyn o fewn **deg diwrnod gwaith** i basio'r asesiad cymhwyso.

3.37. Bydd yr Ysgrifennydd yn cofnodi'r penderfyniad ar y system recriwtio ddigidol, ac yn sicrhau bod yr ymgeisydd yn cael gwybod a yw ei gais wedi cael caniatâd i fwrw ymlaen.

## Cam 3: Geirdaon

3.38. Rhaid i ymgeiswyr gynnwys gwybodaeth gyswllt ar gyfer dau eirda adeg gwneud y cais. Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol sydd i benderfynu a ellir gofyn am eirdaon a'u hystyried ar gyfer unrhyw ymgeisydd penodol fel rhan o'r broses recriwtio. Gall ysgrifenyddion benderfynu gofyn am eirdaon er mwyn egluro unrhyw bryderon ynghylch cymhwysedd, neu mewn ymateb i dystiolaeth a gafwyd yn y cyfweliad i lywio unrhyw benderfyniadau ynghylch a ddylai ymgeisydd fwrw ymlaen.

**Cael geirdaon**

3.39. Pan ofynnir am eirdaon, rhaid cael y rhain gan ddau unigolyn sydd wedi adnabod

yr ymgeisydd ers o leiaf dair blynedd, gan ddefnyddio'r ffurflen geirda safonol. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd copïau caled o'r ffurflenni geirda hyn ar gael. Os yw'r ymgeisydd mewn gwaith, dylid cael un o'r geirdaon gan ei gyflogwr presennol (er enghraifft, gallai hyn fod yn rheolwr presennol yr ymgeisydd). Nid oes rhaid i eirda cyflogwr fodloni'r amod o orfod adnabod yr ymgeisydd ers tair blynedd.

3.40. Pan fo Ysgrifenyddion yn cysylltu â chanolwyr, dylid tynnu eu sylw at y canllawiau i ganolwyr yn **Atodiad 3B.**

3.41. Dylai ysgrifenyddion nodi'n glir i ganolwyr y dyddiad y dylai'r geirdaon ddod i law.

3.42. Dylai ysgrifenyddion wneud ymdrechion rhesymol a chymesur i fynd ar drywydd geirdaon pan fo angen, gan gynnwys gofyn i'r ymgeisydd gysylltu â'r canolwr yn uniongyrchol.

3.43. Os yw'r ymgeisydd yn nodi bod oedi wedi'i achosi oherwydd nad yw'r canolwr ar gael, dylid gofyn iddo nodi canolwr arall.

### Cyfyngiadau o ran pwy sy'n gallu rhoi geirda

3.44. Ni chaiff canolwr fod mewn perthynas agos neu deuluol â'r ymgeisydd.

3.45. Ni ddylid rhoi geirda gan unrhyw un sy'n debygol o ymddangos yn y llys y gallai'r ymgeisydd gael ei benodi ynddo.

3.46. Dim ond un ynad neu ddeiliad swydd farnwrol y gellir ei enwebu fel canolwr.

### Cyfrinachedd geirdaon

3.47. Rhaid cadw geirdaon yn gyfrinachol.

3.48. Gallai ysgrifenyddion benderfynu gofyn am eirdaon mewn achosion lle mae materion yn ymwneud â chymhwysedd neu gymeriad da yn cael eu hystyried, yn dilyn cais a/neu gyfweliad. Ar adegau o'r fath, bydd Ysgrifenyddion yn adolygu ac yn penderfynu a ddylai ymgeisydd gael bwrw ymlaen neu beidio.

## Cam 4: Cyfweliad

3.49. Rhaid gwahodd ymgeiswyr sy'n bodloni neu'n rhagori ar yr asesiad cymhwyso i gyfweliad.

### Cynnwys cyfweliadau

3.50. Pwrpas cyfweliad yw asesu pa mor dda mae'r ymgeisydd yn dangos nodweddion allweddol ynad, eu bod yn gymeriad da ac yn gallu bodloni'r ymrwymiadau amser y disgwylir gan ynad.

3.51. Bydd Pwyllgorau Ymgynghorol yn cael cronfa o gwestiynau wedi'u cynllunio i brofi pob un o'r nodweddion allweddol. Rhaid i Bwyllgorau Ymgynghorol ddewis un cwestiwn yn ymwneud ag ymddygiad ac un cwestiwn yn ymwneud â sefyllfa ar gyfer pob nodwedd, ar gyfer pob ymgyrch.

3.52. Bydd paneli cyfweld yn cael canllawiau ar sut i ofyn cwestiynau dilynol i'w helpu i ofyn cwestiynau teg a gwrthrychol i geisio cael atebion manwl lle bo hynny'n briodol.

3.53. Bydd y gofyniad am gymeriad da yn cael ei brofi drwy gydol y cyfweliad.

3.54. Er mwyn llwyddo yn y cyfweliad, mae angen sgôr o 3 neu uwch ym mhob un o'r pum nodwedd.

3.55. Er mwyn lleihau'r posibilrwydd o ragfarn ddiarwybod, dim ond enw'r ymgeisydd a nodiadau myfyrio ymchwil a gyflwynir cyn y cyfweliad y bydd paneli cyfweld yn eu cael.

3.56. Dylai paneli cyfweld gofio y bydd ymgeiswyr yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd gwahanol ac y bydd ganddynt wahanol raddau o brofiad cyfweld.

3.57. Er y dylai ymgeiswyr adael y cyfweliad yn teimlo eu bod wedi cael eu profi'n iawn, dylent deimlo bod hyn wedi cael ei wneud gyda chwrteisi a phroffesiynoldeb.

**Asesu cyfweliad**

3.58. Bydd perfformiad ymgeiswyr yn cael ei fesur ar y nodweddion allweddol. Bydd paneli cyfweld yn cael methodoleg sgorio safonol.

3.59. Gall aelodau'r panel wneud eu nodiadau eu hunain yn ystod y cyfweliad pan nad ydynt yn siarad â'r ymgeisydd.

3.60. Dylai pob aelod o'r panel gofnodi ei asesiad ei hun ar gyfer pob nodwedd cyn i unrhyw un fynegi ei farn am yr ymgeisydd. Dylai cadeirydd y panel wedyn ofyn i bob aelod am ei farn, cyn rhoi ei farn ei hun.

3.61. Dylai cadeirydd y panel sicrhau bod ffurflen asesu derfynol yn cael ei llenwi a'i chyflwyno drwy'r system ar-lein, gan roi tystiolaeth o asesiad ar y cyd y panel.

3.62. Mae'n hanfodol bod y ffurflen yn cofnodi tystiolaeth sy'n gadarn, yn ddilys ac yn dibynadwy, yn enwedig os ceir cais am adolygu penderfyniad y panel neu ryw her arall. Argymhellir yn gryf bod dyfyniadau gair am air gan ymgeiswyr yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth o asesu yn erbyn y nodweddion allweddol.

3.63. Dylai paneli cyfweld gofio wrth gytuno ar y dystiolaeth y bydd y sylwadau cryno a ddarperir gan y panel yn cael eu rhannu air am air â'r ymgeisydd ar gais.

3.64. Rhaid dinistrio'r holl nodiadau unigol ar ddiwedd sesiwn y cyfweliad.

**Trefniadau ymarferol**

3.65. Gwahoddir ymgeiswyr i drefnu cyfweliad drwy'r system recriwtio ar-lein.

3.66. Disgwylir y bydd yr amser a gymerir rhwng pasio'r asesiad cymhwyso a rhagsgrinio (os yw'n berthnasol) i gael cynnig cyfweliad yn uchafswm o **ddau fis.**

3.67. Bydd paneli cyfweld yn cael gwahoddiad awtomatig i’r cyfweliad pan fydd ymgeisydd yn trefnu slot cyfweliad.

3.68. Dylai cyfweliadau bara tua 1 awr a 15 munud fel arfer.

3.69. Fel arfer bydd y cyfweliadau’n cael eu cynnal drwy Microsoft Teams.

3.70. Disgwylir y bydd paneli’n cynnal o leiaf dri chyfweliad y dydd fel mater o drefn.

3.71. Gall ymgeiswyr ofyn am gyfweliad wyneb yn wyneb fel dewis arall a dylai Pwyllgorau Ymgynghorol geisio darparu ar gyfer hyn.

3.72. Dylid cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb mewn adeilad cyhoeddus.

3.73. Rhaid cynnal pob cyfweliad mewn ffordd sy’n ddiogel ac yn hygyrch i bob ymgeisydd, gan gynnwys y rheini sydd ag anableddau.

3.74. Efallai na fydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn gofyn am adolygiad ar y sail bod y cyfweliad wedi cael ei gynnal drwy Microsoft Teams.

3.75. Mae gan ymgeiswyr sy’n cael eu hail-gyfweld yn dilyn adolygiad o benderfyniad blaenorol hawl i ofyn am gyfweliad wyneb yn wyneb.

**Ad-dalu treuliau i ymgeiswyr**

3.76. Ni fydd treuliau ar gyfer teithio i gyfweliadau wyneb yn wyneb, neu ar gyfer unrhyw dreuliau eraill a wynebir wrth fynd ar drywydd eu cais yn cael eu had-dalu oni bai fod amgylchiadau eithriadol, megis ynglŷn ag addasiad rhesymol. Rhaid i ymgeiswyr sy’n dymuno cael ad-daliad gysylltu â’r Ysgrifennydd i drafod gofynion cyn ymrwymo i unrhyw wariant.

3.77. Byddai angen i unrhyw benderfyniad a wneir i ad-dalu costau i ymgeiswyr unigol gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan uwch swyddog priodol GLITEF.

3.78. Yn dilyn y cyfweliad, rhaid i’r ymgeisydd gyflwyno prawf o wariant (ee tocyn trên). Dylai GLITEF wedyn drefnu i ad-dalu costau.

**Rôl Ysgrifenyddion ynglŷn â chyfweliadau**

3.79. Ni ddylai’r Ysgrifennydd fod yn bresennol mewn cyfweliadau ar gyfer pwyllgorau recriwtio, fel mater o drefn, er y gall arsylwi cyfweliadau drwy drefniant ymlaen llaw. Fodd bynnag, dylai Ysgrifennydd neu Ddirprwy enwebedig fod ar gael bob amser i gynghori paneli cyfweld ar unrhyw faterion gweinyddol neu bolisi sy’n ymwneud â’r broses ddethol.

3.80. Dylai'r Ysgrifennydd hefyd wirio ansawdd sampl o ffurflenni asesu wedi’u llenwi a chodi unrhyw faterion neu bryderon gyda chadeirydd y panel.

3.81. Os bydd ymgeiswyr yn llwyddiannus yn y cyfweliad, byddant yn cael e-bost yn cynnwys dolen awtomatig i’r ymgeisydd lenwi a chyflwyno eu cais DBS.

**Paneli cyfweld**

3.82. **Rhaid** i aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol fod wedi cael hyfforddiant recriwtio perthnasol cyn cymryd rhan yn y broses ddethol.

3.83. Bydd dau aelod ar bob panel cyfweld. Pan fo'n bosibl, dylai paneli gael eu cynnal gan banel o dri aelod (gan gynnwys cadeirydd).

3.84. Gall cadeirydd y panel fod naill ai'n ynad neu'n aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol nad yw'n ynad.

3.85. Dylai'r gynrychiolaeth o'r panel gynnwys ynadon ac aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol nad ydynt yn ynadon lle bo hynny'n bosibl, ac mae pob un ohonynt yn gyfartal o ran statws. Lle nad yw hynny'n bosibl, gall paneli gynnwys ynadon sy'n aelodau o Bwyllgorau Ymgynghorol yn unig.[3]

3.86. Ar gyfer ceisiadau i'r llys teulu, rhaid i o leiaf un aelod o'r panel fod yn ynad teulu.

3.87. Ar gyfer ceisiadau i'r llys troseddol, dylai o leiaf un aelod o'r panel fod yn ynad sy'n eistedd yn y llys troseddol.

3.88. Os yw Pwyllgorau Ymgynghorol yn cael trafferth sicrhau digon o gyfwelwyr, dylent ofyn am gymorth gan Bwyllgor Ymgynghorol ar Recriwtio arall. Hefyd, a lle bo'n briodol, gall pwyllgorau ddefnyddio cronfa genedlaethol ehangach yr ynadon.

3.89. Ceisir bwrw ymlaen â phanel o dri gyda chynrychiolwyr o blith ynadon a rhai nad ydynt yn ynadon, gan gynnwys ceisio argaeledd o ardal arall o'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Recriwtio. Fodd bynnag, os nad oes aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol nad yw'n ynad ar gael, yna gall y panel o ddau sy'n cynnwys dim ond ynadon sy'n aelodau fwrw ymlaen.

3.90. Nid yw diffyg aelod nad yw'n ynad ar y panel yn sail dros ganslo nac aildrefnu'r cyfweliad.

3.91. Os bydd panel o ddau yn mynd rhagddo a'i fod yn banel cyfweld ar gyfer ynadon yn unig:

- Rhaid i'r ddau aelod o'r panel ynadon fod â phrofiad o gyfweld ar gyfer yr ynadaeth a rhaid iddynt fod wedi cyfweld ar ran ynadon mewn ymgyrchoedd blaenorol; a
- Dylai paneli gynnwys o leiaf un ynad o'r awdurdodaeth y cynhelir y cyfweliadau ar ei chyfer, felly os yw'r cyfweliad ar gyfer trosedd, rhaid cael ynad llys troseddol neu os yw'r cyfweliad ar gyfer teulu, rhaid cael ynad llys teulu.

3.92. Dylai paneli cyfweld fod mor amrywiol â phosibl. Cydnabyddir bod Pwyllgorau

---

[3] https://www.gov.uk/government/publications/governance-code-for-public-appointments

Ymgynghorol yn dibynnu ar argaeledd aelodau i gymryd rhan mewn cyfweliadau ond dylai ystyried amrywiaeth fod yn ffactor allweddol wrth gynnull paneli.

**Arsylwi cyfweliadau**

3.93. Dim ond yr unigolyn/unigolion canlynol all arsylwi cyfweliadau (drwy drefniant ymlaen llaw):

- Swyddog o adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol;
- Rhywun a awdurdodwyd gan yr Uwch Farnwr Llywyddol;
- Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol;
- Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol neu ddirprwy enwebedig;
- Aelod newydd o'r pwyllgor (wedi'i gyfyngu i un fesul cyfweliad); neu
- Swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu GLITEF, at ddibenion gwella arferion recriwtio.

3.94. Dylid rhoi gwybod i ymgeiswyr cyn y cyfweliad os bydd arsylwr yn bresennol a gofyn iddynt gadarnhau nad oes ganddynt wrthwynebiad. Os gwneir gwrthwynebiad, dylai'r arsylwr dynnu'n ôl o'r cyfweliad.

**Ymgeiswyr sydd ag anableddau**

3.95. Dylid gwneud addasiadau rhesymol i alluogi ymgeiswyr i fynd i gyfweliadau.

3.96. Ni ddylid gofyn unrhyw gwestiynau i ymgeiswyr anabl am eu hanabledd, na sut maen nhw'n meddwl y gallai effeithio ar eu gallu i wasanaethu fel ynadon. Mae hyn yn cynnwys cwestiynau am gyrraedd y llys/mynediad i adeiladau. Os bydd ymgeisydd yn ceisio trafod y pwnc hwn yn ei gyfweliad, dylid rhoi gwybod iddo y bydd hyn yn cael ei ystyried os a phan gaiff ei benodi, a'i sicrhau mai pwrpas y cyfweliad yw ei asesu ar sail teilyngdod yn unig.

**Dull adnabod**

3.97. Rhaid i ymgeiswyr ddangos **tair dogfen adnabod** cyn y cyfweliad er mwyn gallu cadarnhau pwy ydynt. Rhaid i'r rhain fod yn ddogfennau gwreiddiol a dylent gynnwys un math o ID ffotograffig o Restr A ac un ddogfen o Restr B isod:

**Rhestr A**

- pasbort;
- trwydded yrru;
- cerdyn adnabod yr UE.

**Rhestr B** (wedi'i dyddio o fewn y ddau fis diwethaf)

- bil cyfleustodau;

- datganiad banc;
- datganiad cerdyn credyd (neu ddogfen debyg).

3.98. Os nad oes gan yr ymgeisydd unrhyw ddogfennau adnabod ffotograffig, dylai ofyn i unigolyn ddilysu llun ohonynt. Dylai'r cyd-lofnodwr fod naill ai'n gweithio mewn proffesiwn "cydnabyddedig" neu wedi ymddeol ohono. Gweler [Confirm someone's identity online for a passport application - GOV.UK (www.gov.uk)] i weld rhestr o'r proffesiynau "cydnabyddedig". Rhaid i'r llun gael ei lofnodi a'i ddyddio ddim mwy na thri mis cyn i'r cais gael ei gyflwyno.

3.99. Dylai'r ymgeisydd ddarparu prawf o bwy ydyw i Ysgrifenyddion cyn y cyfweliad, naill ai'n bersonol neu drwy'r post neu drwy e-bost.

3.100. Rhaid i ymgeiswyr hefyd gyflwyno'r prawf yn y cyfweliad i ddangos i'r panel cyfweld, naill ai drwy Microsoft Teams neu wyneb yn wyneb.

## Cyfweliadau: gweithdrefnau ar ôl asesu

### Argymhelliad y Pwyllgor Ymgynghorol ar gyfer penodi

3.101. Dylai argymhellion ar gyfer penodi fod yn seiliedig yn unig ar sgôr asesu cyfweliad yr ymgeisydd gan y panel cyfweld a gynhaliodd y cyfweliad.

3.102. Defnyddir yr asesiad cymhwyso dim ond i benderfynu pa ymgeiswyr ddylai symud ymlaen i gyfweliad.

3.103. Dylai gwybodaeth a ddatgelwyd gan ymgeiswyr fel rhan o'r broses ymgeisio sy'n ymwneud ag euogfarnau blaenorol, methdaliad neu bryderon eraill ynghylch cymhwysedd gael ei datrys cyn y cyfweliad. Ni ddylai'r wybodaeth hon fel arfer fod yn rhan o'r broses o ystyried a ddylid argymell ymgeisydd i'w benodi, ac o'r herwydd ni fydd yn cael ei darparu fel mater o drefn i'r Pwyllgor Ymgynghorol.

### Gwybodaeth bersonol am ymgeiswyr

3.104. Pan fydd aelod o'r Pwyllgor yn awgrymu y byddai'n amhriodol bwrw ymlaen â chais ar sail gwybodaeth bersonol am ymgeisydd, dylai'r Pwyllgor Ymgynghorol neu'r cworwm drafod y mater. Rhaid i benderfyniad i beidio â bwrw ymlaen fod yn benderfyniad gan y Pwyllgor Ymgynghorol llawn neu'r cworwm.

3.105. Rhaid i aelodau'r panel cyfweld beidio â chynnal eu hymchwil eu hunain i ymgeiswyr, er enghraifft drwy chwilio'r rhyngrwyd am eu henwau neu fanylion hysbys eraill amdanynt. Ni ddylid chwaith wneud gwaith ymchwil ar unrhyw fath arall o gyfryngau cymdeithasol, er enghraifft drwy roi neges ar-lein drwy gofnod "blog" neu gyfrif "Twitter" yn gofyn am wybodaeth gefndir am ymgeisydd.

### Y weithdrefn pan fydd mwy o ymgeiswyr addas na swyddi gwag

3.106. Dylid argymell penodi pob ymgeisydd sy'n llwyddiannus yn y cyfweliad. Mewn amgylchiadau eithriadol, lle byddai penodiadau'n mynd y tu hwnt i'r cap capasiti rhanbarthol (sy'n wahanol i'r targed recriwtio blynyddol), Ysgrifennydd y rhanbarth hwnnw fydd yn gwneud y penderfyniad penodi terfynol.

3.107. Ni ddylai'r ffaith y gallai fod angen addasiadau rhesymol ar ymgeisydd fod yn ystyriaeth wrth wneud (neu beidio â gwneud) argymhelliad.

3.108. Dylai'r Ysgrifennydd gymryd y camau canlynol hefyd:

- gwirio gyda GLITEF a fyddai'n ymarferol ac yn unol â'r angen busnes sefydledig i benodi'r holl ymgeiswyr llwyddiannus; a hefyd
- holi a all ardaloedd cyfagos gynnig apwyntiadau os yw hynny'n briodol.

**Hysbysu ymgeiswyr am ganlyniad eu cais**

3.109. Dylai ysgrifenyddion gofnodi canlyniad ceisiadau a rhoi gwybod i ymgeiswyr drwy e-bost o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl y cyfweliad.

3.110. Dylai negeseuon e-bost at ymgeiswyr aflwyddiannus roi gwybod nad yw'r ymgeisydd yn cael ei argymell i'w benodi, ac a yw hyn oherwydd nad oeddent yn bodloni'r safon ofynnol, neu fod ymgeiswyr eraill wedi cael sgôr uwch.

3.111. Gall ymgeiswyr ofyn am adborth pellach ar eu cyfweliad, y bydd Ysgrifenyddion yn ei ddarparu o ffurflen asesu'r panel cyfweld.

## Proses glirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

3.112. Rhaid i ymgeiswyr sy'n cael eu hargymell i'w penodi'n ynadon fod wedi cael archwiliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

3.113. Os bydd ymgeiswyr yn llwyddiannus yn y cyfweliad, byddant yn cael e-bost yn cynnwys dolen awtomatig i'r ymgeisydd lenwi a chyflwyno eu cais DBS yn ddigidol.

3.114. Nid oes angen cyd-lofnodwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer penodiadau ynadon newydd oherwydd bod archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu digideiddio. Bydd swyddog GLITEF yn cael ei ddynodi ar gyfer pob pwyllgor i ddilysu manylion adnabod â llaw os bydd angen.

3.115. Os oes angen arweiniad pellach, mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cyhoeddi canllawiau defnyddiol ar-lein, gan gynnwys ar gyfer ymgeiswyr. Mae'r wybodaeth hon ar gael drwy'r wefan ganlynol: [www.gov.uk/disclosure-barring-service-check.](www.gov.uk/disclosure-barring-service-check)

3.116. Nid yw cyd-lofnodwyr y Pwyllgorau Ymgynghorol yn cael copïau o dystysgrifau cofnodion datgelu gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Ar ôl i ymgeiswyr gael tystysgrif DBS, rhaid iddynt gyflwyno'r copi gwreiddiol neu gopi digidol i'r Ysgrifennydd i'w gadarnhau.

3.117. Dylai Pwyllgorau Ymgynghorol ganiatáu o leiaf **deg diwrnod gwaith** i wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael eu cwblhau.

## Adolygiad gan ymgeiswyr aflwyddiannus

**Adolygu penderfyniad Pwyllgor Ymgynghorol (neu gworwm penderfyniad Pwyllgor Ymgynghorol)**

3.118. Mae gan ymgeiswyr na chawsant eu hargymell i'w penodi yn dilyn cyfweliad lle nad oeddent yn bodloni'r safon ofynnol hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad ar sail yr amodau canlynol:

- os oedd y broses ddethol wedi cael ei chamgymhwyso; neu
- roedd aelod o'r panel cyfweld wedi ymddwyn yn amhriodol.

3.119. Rhaid i'r ymgeisydd nodi sut y cafodd ei ragfarnu ar y naill neu'r llall o'r seiliau uchod er mwyn i'w apêl gael ei hystyried. Rhaid i'r ymgeisydd fod wedi gofyn am adborth ac wedi'i ystyried cyn gofyn am adolygiad o ganlyniad ei gais.

3.120. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r broses adolygu hon a chael dyddiad cau o **bymtheg diwrnod gwaith** o ddyddiad cael adborth i gyflwyno eu cais am adolygiad y mae'n rhaid iddo gynnwys manylion eu rhesymau dros ofyn am adolygiad. Ni ddylid bwrw ymlaen â cheisiadau am adolygiad a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau oni bai fod amgylchiadau eithriadol. Rhaid cyflwyno pob cais drwy'r system recriwtio ddigidol.

3.121. Nid oes hawl i ofyn am adolygiad o ganlyniadau'r broses asesiad cymhwyso, lle cawsant eu gwrthod ar sail cymhwysedd, nac ar gyfer ymgeiswyr a gyrhaeddodd y safon ofynnol yn y cyfweliad ond na chawsant eu hargymell ar gyfer penodiad oherwydd bod swyddi gwag yn cael eu llenwi gan ymgeiswyr eraill sy'n sgorio'n uwch. Wrth gyfathrebu ag ymgeiswyr o'r fath dylid ei gwneud yn glir bod penderfyniad y Pwyllgor Ymgynghorol ynghylch peidio ag argymell yn derfynol.

3.122. Y Pwyllgor Ymgynghorol sy'n gyfrifol am adolygu penderfyniadau yn y lle cyntaf a dylai wneud hynny o fewn **ugain diwrnod gwaith** i gael cais am adolygiad.

3.123. Lle nad yw'n ymarferol i'r Pwyllgor Ymgynghorol llawn adolygu'r penderfyniad, dylid cynnull cworwm adolygu ar wahân o dri aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol i wneud hynny. Dylai'r tri aelod gynnwys ynadon ac aelodau o'r Pwyllgor nad ydynt yn ynadon.

3.124. Lle bo'n berthnasol, mae'n bwysig bod atgofion aelodau'r panel a gymerodd ran yn y cyfweliad yn cael eu ceisio a'u hystyried fel rhan o'r broses adolygu. Efallai y bydd angen yr wybodaeth hon hefyd os caiff y mater ei gyfeirio wedyn at yr Uwch Farnwr Llywyddol i'w ystyried.

3.125. Efallai y bydd y Pwyllgor Ymgynghorol neu gworwm yr adolygiad yn penderfynu cadarnhau'r penderfyniad. Neu, efallai y byddant yn penderfynu y dylai'r ymgeisydd gael ei gyfweld eto gan banel gwahanol.

3.126. Dylid hysbysu ymgeiswyr o fewn **pum diwrnod gwaith** i ganlyniad yr adolygiad a

rhoi rhesymau iddynt dros y penderfyniad a wnaed. Rhaid dweud wrthynt hefyd, os nad ydynt yn derbyn y penderfyniad, y gallant ofyn am adolygiad pellach gan yr Uwch Farnwr Llywyddol.

**Cais am adolygiad gan yr Uwch Farnwr Llywyddol / Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol**

3.127. Gall ymgeisydd ofyn am adolygiad o benderfyniad a wneir gan Bwyllgor Ymgynghorol a bydd yn cael ei ystyried naill ai gan yr Uwch Farnwr Llywyddol neu'r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol. Ni fydd yr Uwch Farnwr Llywyddol neu'r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol ond yn ystyried cadarnhau cais am adolygiad os oes tystiolaeth glir bod y broses ddethol wedi cael ei chamgymhwyso neu fod aelod o'r panel cyfweld wedi ymddwyn yn amhriodol.

3.128. Os bydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn cael cais am adolygiad o'u penderfyniad, dylid anfon hwn, gyda'r holl bapurau perthnasol, at adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol o fewn **pum diwrnod gwaith.**

3.129. Y targed ar gyfer cwblhau adolygiad gan yr Uwch Farnwr Llywyddol neu'r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol ar gyfer ymgeiswyr yw **35 diwrnod gwaith** ar ôl i'r holl bapurau perthnasol ddod i law. Fodd bynnag, gall oedi ddigwydd o bryd i'w gilydd oherwydd y galw ar amser yr Uwch Farnwr Llywyddol.

3.130. Mae penderfyniad yr Uwch Farnwr Llywyddol neu'r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol yn derfynol.

3.131. Gall yr Uwch Farnwr Llywyddol neu'r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol benderfynu cadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Ymgynghorol/y cworwm adolygu, neu gall benderfynu bod yn rhaid ail-gyfweld yr ymgeisydd. Dylai ymgeiswyr gael gwybod yn ysgrifenedig am ganlyniad eu hadolygiad gan adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol o fewn **deg diwrnod gwaith** i benderfyniad gan yr Uwch Farnwr Llywyddol neu'r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol. Anfonir copi o'r llythyr at Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol.

3.132. Os na fydd yr Uwch Farnwr Llywyddol neu'r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol yn cadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Ymgynghorol, bydd adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn rhoi crynodeb i'r Ysgrifennydd o unrhyw resymau a roddwyd.